
Archwilio ieithoedd a diwylliannau L161

Patrwm cyflwyno Rhwng mis Hydref a mis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Nod y modiwl Lefel 1 rhagarweiniol allweddol hwn yw cyflwyno *myfyrwyr* i gysyniadau allweddol yn ymwneud ag ieithoedd, dysgu ieithoedd, lluosieithrwydd a chyfathrebu rhyngddiwylliannol. Bydd yn eu helpu i feithrin sgiliau rhyngddiwylliannol a datblygu ymwybyddiaeth iaith i gefnogi ac ategu'r sgiliau iaith a gwmpesir mewn modiwlau sy'n benodol i ieithoedd. Mae'r adnoddau astudio yn cynnwys llyfrau wedi'u hargraffu, gwefan ddynodedig gyda gweithgareddau ar-lein ac adnoddau clyweledol, a fforwm trafod. Gyda'i gilydd, bydd yr adnoddau hyn yn cyflwyno'r *myfyrwyr* i rai o'r elfennau sy'n diffinio astudio ieithoedd tramor modern ac astudiaethau iaith Saesneg.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech:

- gradd gyntaf (neu radd gyfatebol) mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i'r modiwl (e.e. iaith dramor, cyfathrebu rhyngddiwylliannol/cyfathrebu trawsddiwylliannol, ieithyddiaeth/ieithyddiaeth gymhwysol, Saesneg/iaith Saesneg)
- cymhwyster addysgu priodol (e.e. TAR neu gymhwyster cyfatebol mewn maes pwnc perthnasol, aelodaeth o'r Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfatebol)
- profiad o addysgu ar lefel drydyddol
- gwybodaeth am o leiaf un o'r meysydd canlynol a pharodrwydd i ddatblygu gwybodaeth yn y meysydd sy'n weddill: theori ac ymarfer presennol cyfathrebu rhyngddiwylliannol, theori ac ymarfer presennol addysgu a dysgu ieithoedd, ieithoedd modern ar waith gan gynnwys agweddau ar gyfieithu neu ddehongli
- parodrwydd a gallu amlwg i groesawu dull addysgu rhyngddisgyblaethol, gan gynnwys meysydd pwnc a allai fod yn newydd i chi
- cymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar
- gwybodaeth am o leiaf un iaith dramor fodern, ar wahân i Saesneg, ar Lefel B2 (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd)
- y gallu i gefnogi a hwyluso grŵp o ddysgwyr amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol i fyfyrwyr aeddfed, gyda lefelau amrywiol o brofiad rhyngddiwylliannol ac yn astudio ieithoedd
- y gallu i ddatblygu ymagwedd agored, ond eto'n feirniadol at faterion rhyngddiwylliannol
- profiad o addysgu mewn Amgylchedd Dysgu Rhithwir ac ymrwymiad i addysgu ar-lein

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o adnoddau addysgu neu fodiwlau israddedigion blwyddyn gyntaf
- wedi cyflawni hyfforddiant mewn cyfathrebu rhyngddiwylliannol
- cymhwyster ôl-raddedig mewn disgyblaeth sy'n berthnasol i'r modiwl

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4